***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 2803

## Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Cymru) 2007

**Sylwadau i Weinidogion Cymru**

**7.**—(1) Caiff gweithgynhyrchydd wneud sylwadau yn erbyn—

(a) gwrthodiad i roi neu adnewyddu cymeradwyaeth;

(b) diwygiad, ataliad neu ddirymiad o gymeradwyaeth; neu

(c) unrhyw amod ar gymeradwyaeth,

i berson a benodir gan Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid i'r gweithgynhyrchydd hysbysu Gweinidogion Cymru o'i fwriad i wneud sylwadau o'r fath i'r person penodedig o fewn un mis ar ôl iddo dderbyn hysbysiad yn gwrthod rhoi neu adnewyddu'r gymeradwyaeth neu'n diwygio, atal neu ddirymu'r gymeradwyaeth.

(3) Rhaid i'r person penodedig ystyried y sylwadau a chyflwyno adroddiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru o fewn un mis ar ôl iddo gael y sylwadau.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad ysgrifenedig o'u penderfyniad terfynol a'u rhesymau drosto i'r ceisydd o fewn un mis ar ôl iddynt gael yr adroddiad oddi wrth y person penodedig.

(5) Oni fydd Gweinidogion Cymru'n cyfarwyddo fel arall, bydd y gwrthodiad i adnewyddu cymeradwyaeth neu ddiwygiad, ataliad neu ddirymiad o gymeradwyaeth yn parhau mewn grym hyd nes y byddant yn gwneud eu penderfyniad terfynol.